

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Llinos Medi
Grŵp: Plaid Cymru

Ward: Talybolion

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	6 (75%)
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	8 (89%)
Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Is-Gadeirydd)	3 (100%)
Pwyllgor Apeliadau (mynychu ar sail rota)	Dim cyfarfodydd.
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Arweinydd Grŵp Plaid Cymru
Deilydd Portffolio Cysgodol Cyllid
Cynrychioli Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar fwrdd Trawsnewid Addysg

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 cyfarfod (67%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Grantiau Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

Rwy'n Bencampwr Plant a Phobl Ifanc .

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon	3	1
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle Wylfa	2	2

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfechell. 'Rwyf wedi mynychu amryw o weithgareddau cymunedol, boreau coffi, cyngherddau, gwasanaethau Nadolig ac yn y blaen.

Mae gwaith unigolion yn y ward wedi amrywio yn arw, rwy'n falch o'r hyn rwyf wedi gallu cyflawni ar ran y bobl sydd wedi dod ar fy ngofyn, gyda chydweithrediad swyddogion y Cyngor.

Rwyf wedi mynychu Ysgol Uwchradd Bodedern i drafod fy ngwaith fel Cynghorydd Sir a thrafodaeth cyffredinol ynglŷn â gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi gwneud amryw o geisiadau grantiau ar gyfer parc chwarae Bodedern a Llanfechell, ac wedi bod yn ffodus o dderbyn rhai ohonynt - mae gwaith bellach wedi cychwyn i wella'r cyfleusterau chwarae. Rwyf wedi fy newis fel y Pencampwr Plant a Phobl Ifanc.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Ymwybyddiaeth am Ddiogelu	25 Mehefin 2015
Rhiantu Corfforaethol	6 Gorffennaf 2015
Cwrs Gloywi Iaith (Cymraeg ysgrifenedig)	30 Gorffennaf 2015
Deall Dementia	24 Tachwedd 2015
Sipsiwn a Theithwyr – Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol	7 Rhagfyr 2015
Sesiynau Briffio Aelodau (9 allan o 11 = 82%)	Ebrill 2015 – Mawrth 2016

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi mwynhau'r flwyddyn ddiwethaf ac wedi derbyn sawl her fel Cynghorydd. Hoffwn ddiolch i staff y Cyngor, teulu a ffrindiau am eu cefnogaeth barhaol.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=304&LLL=1>

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

Ebrill 2016